YSBRYDOLI CERDDORION
TRAWSNEWID BYWYDAU

INSPIRING MUSICIANS
TRANSFORMING LIVES

# FFRINDIAU LMN: CYMRU

## INSPIRING MUSICIANS: YSBRYDOLI CERDDORION



"Cerddoriaeth, o'r holl gelfyddydau, yw'r iaith sy'n treiddio ddyfnaf i mewn i'r ysbryd dynol, gan gyrraedd pobl drwy bob rhwystr, anabledd, iaith ac amgylchiad…. Dyna pam iddi fod yn freuddwyd gen i i ddod â cherddoriaeth yn ôl i fywydau'r bobl hynny sydd â'u bywydau'n cael eu heffeithio gan straen a dioddefaint…. fel ei bod yn gallu cysuro, gwella a dod â mwyniant." Yehudi Menuhin

Elusen fwyaf blaengar y DU ar gyfer datblygu cerddorion ac estyn allan yw Live Music Now. Mae'n darparu profiadau cerddoriaeth fyw eithriadol ar gyfer plant ac oedolion bregus. Mae wedi cyrraedd mwy na 2 miliwn o bobl drwy 50,000 o berfformiadau cyfranogol i bobl hŷn, nifer ohonyn nhw'n byw gyda dementia a phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

Yng Nghymru, ni yw'r unig sefydliad celfyddydol sy'n gweithio ym mhob sir gan ddwyn hapusrwydd a buddiannau iechyd penodol i gartrefi gofal, ysgolion arbennig a wardiau ysbytai Cymru.

**Diolch am ystyried bod yn Ffrind i LMN yng Nghymru. Gobeithio y cewch eich ysbrydoli i ymuno â ni.**

“Roedd y cerddorion yn rhagorol, gan wneud pawb yn gyfforddus a mwynhau tynnu coes. Mae dau o’r Defnyddwyr Gwasanaeth yn colli eu cof yn ddifrifol gan wneud iddyn nhw felly anghofio sgwrs a gweithgaredd ar ôl ychydig funudau. Er nad oedd yr un o’r ddau’n gallu cofio’r perfformiad, roedden ni’n gallu gweld eu mwynhad drwy gydol y perfformiad ac yn eu gwylio’n canu a chofio geiriau nifer o ganeuon. Roedd un arall sy’n dioddef gan iselder wedi ymlacio’n llwyr ac yn gwenu drwy’r amser a’r sesiwn i gyd yn codi’i galon. Roedd pawb yn parhau i ganu drwy’r dydd! Diolch i’r cerddorion ac i LMN am y cyfle arbennig hwn. Peidiwch â thanbrisio cymaint rydyn ni’n gwerthfawrogi ac yn elwa o’ch ymweliadau. Cofiwch ddod eto’n fuan!”

Rheolwr, Canolfan Adnoddau Bryntirion, Ceredigion





## BETH YW FFRIND LMN?

Drwy eu cefnogaeth, mae Ffrindiau LMN yn chwarae rôl hanfodol wrth ariannu ein gwaith a’n galluogi i barhau i ddod â chyfleoedd cerddoriaeth fyw eithriadol i fwy na 200,000 o bobl ddifreintiedig mewn cymunedau ar draws y wlad. Mae arian sy’n cael ei godi yng Nghymru’n aros yng Nghymru er budd ein cymunedau.

Ychydig iawn o arian cyhoeddus a phreifat mae Live Music Now yn ei dderbyn bob blwyddyn ac mae’n dibynnu ar haelioni cefnogwyr sy’n credu ym muddiannau ei waith yn trawsnewid bywydau. Mae’n gwneud gwahaniaeth anferth i fywydau’r plant a’r oedolion bregus y byddwn yn ymweld â nhw. Gobeithio y byddwch chi’n ystyried bod yn Ffrind i Live Music Now Cymru.

“Diolch yn fawr iawn am gyfraniad gwych! Roedd rhai o’n plant mwyaf heriol a chymhleth yn gallu mwynhau cerddoriaeth ar lefel nad ydyn nhw erioed wedi gallu o’r blaen.”

Athro, Ysgol Arbennig Penybryn, Abertawe





## EFYDD - £5 Y MIS:

- Gall hyn ddarparu cyfle mentora gwerthfawr i ensemble newydd o fewn LMN
- Derbyn e-fwletin misol a thystysgrif Efydd
- Blaenoriaeth ar docynnau ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus
- Rhestr efydd ar ein gwefan ac yn y Blwyddlyfr Blynyddol

## ARIAN - £10 Y MIS:

- Gall hwn ddarparu cyngerdd unawdydd i drigolion mewn cartref gofal neu ysgol i blant ag anghenion ac anableddau addysgol arbennig
- Derbyn e-fwletin misol a thystysgrif Arian
- Blaenoriaeth ar docynnau ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus
- Rhestr arian ar ein gwefan ac yn y Blwyddlyfr Blynyddol
- CD Argraffiad Cyfyngedig

## AUR (UNIGOL) - £25 Y MIS:

- Mabwysiadu cerddor a'n helpu i sicrhau ei hyfforddiant a'i ddatblygiad/datblygiad ar y cynllun am flwyddyn gyfan
- Dewis o unawdydd neu aelod o ensemble
- Derbyn e-fwletin misol, tystysgrif Aur, llun a llythyr diolch personol wedi'i arwyddo gan eich cerddor
- Rhestr aur ar ein gwefan ac yn y Blwyddlyfr Blynyddol
- Crys T LMN di-dâl a CD Argraffiad Cyfyngedig wedi'i arwyddo

## DIEMWNT (CORFFORAETHOL) - £150 Y MIS:

- Mabwysiadu cerddor a'n helpu i sicrhau ei hyfforddiant a'i ddatblygiad/ datblygiad ar y cynllun am flwyddyn gyfan, ynghyd â phrofiad teithio gwerthfawr i ffwrdd o'i gartref/ chartref, yn cynnig cerddoriaeth fyw eithriadol i henoed a phlant ag anghenion addysgol arbennig sy'n unig
- Dewis o unawdydd neu aelod o ensemble, neu gynyddu eich rhodd i fabwysiadu deuawd neu ensemble - mwy fel triawd neu bedwarawd
- Derbyn e-fwletin misol, tystysgrif Diemwnt, llun a llythyr diolch personol wedi'i arwyddo gan eich cerddor
- Eich logo ar ein gwefan a Blwyddlyfr Blynyddol
- Perfformiad am ddim gan eich cerddor/ ensemble ar gyfer digwyddiad o fewn eich cwmni

## RHODDION UNIGOL:

Rhoi rhodd o gerddoriaeth fyw mewn un perfformiad i ddathlu câr mewn Cartref Gofal, Hosbis neu Ysbyty ar gyfer pen blwydd. Neu ddangos cefnogaeth i'ch ysgol leol drwy roi perfformiad neu 'fabwysiadu cerddor' ar ei rhan. Pris rhodd £150 neu fwy.

Os hoffech fod yn Ffrind i Live Music Now Cymru, a fyddech chi cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd i ni. Diolch yn fawr i chi am ystyried gwneud hyn.

Rydyn ni'n dibynnu ar roddion fel hyn sy'n gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau plant ac oedolion bregus y byddwn ni'n eu helpu a hefyd y cerddorion ifanc rydyn ni'n eu hyfforddi a'u cefnogi.

## AMDANOCH CHI

Teitl Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Cod Post

Ffôn

E-bost

## CYFARWYDDIADAU I'CH BANC

Enw'r Banc

Cyfeiriad

Cod Post

Cod Dosbarthu rhif y cyfrif

A fyddech chi cystal â thalu'r swm o £ (y mis) i LMN hyd nes i chi gael cyfarwyddiadau pellach

Dechrau ar (Dyddiad)

Eich llofnod

Dyddiad

☐ (Rhowch√) Hoffwn ychwanegu Cymorth Rhodd at unrhyw rodd fydda i'n ei gwneud yn y dyfodol neu wedi'i gwneud yn y 4 blynedd ddiwethaf i Live Music Now Cymru. Bydd hyn yn ychwanegu 25p at bob rhodd o £1. Rydw i'n talu trethi ac yn deall os bydda i'n talu llai o Dreth Incwm a/ neu Dreth ar Enillion Cyfalaf na'r swm a hawliwyd gan Gymorth Rhodd ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno, fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth.

Manylion banc Live Music Now Cymru yw Barclays Bank, cyfrif: **00464619**, cod dosbarthu: **20-18-15**.

A fyddech chi cystal â dychwelyd hon at:
Live Music Now Cymru, Lefel 4, Tŷ Portland
113-116 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF105EQ

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn, gallwch ffonio **029 20554040** neu anfon e-bost at **wales@livemusicnow.org**.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government